
19 Yn ddiweddar, mae rhai o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi dechrau dyrannu'r gronfa drwy gomisiynu grwpiau thematig i lunio rhaglen waith y gall y gronfa ei chefnogi, yn hytrach na gwahodd ceisiadau gan sefydliadau sy'n aelodau. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf yn gofyn am geisiadau ac, ar ôl eu cyflwyno, mae'n defnyddio dull sgorio i gytuno ar y prosiectau i'w hariannu. Roedd y prosiectau a gynigiwyd yn cydweddu'n fras ag amcanion corfforaethol y partneriaid o ran atal ac integreiddio, ond ni chanfuwyd ei bod yn ofynnol sicrhau bod cysylltiad rhwng prosiectau ac amcanion strategol y Bwrdd na'r amcanion llesiant lleol i gefnogi'r broses o roi **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** ar waith.

20 Mae ein gwaith hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi datblygu gwahanol ddulliau o reoli tanwariant. Mae rheoli tanwariant yn effeithiol yn dal i fod yn broblem, ond mae'r broses fwyaf datblygedig ar waith ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru lle cedwir rhestr wrth gefn o brosiectau y gellir eu cefnogi os oes arian dros ben. Mae Bwrdd Cwm Taf hefyd yn gwahodd ceisiadau ar fyr rybudd gan y trydydd sector ar gyfer prosiectau y gellir eu rhoi ar waith ar fyrder, yn ogystal â chytuno ymlaen llaw ar y modd y caiff tanwariant cyfalaf ei ddefnyddio i gefnogi storfeydd cyfarpar. Fodd bynnag, yn 2017-18, cytunodd Llywodraeth Cymru y câi Bwrdd Cwm Taf ddwyn swm bach o arian ymlaen i'w ddefnyddio yn 2018-19.

## Meysydd i'w gwella

- Parhau i adeiladu ar y defnydd o ffynonellau arian eraill (ee y gronfa trawsnewid, arian dementia, a chyllid craidd ac ati) i sicrhau eu bod yn cael cymaint o effaith â phosibl gyda'i gilydd
- Chwilio am ffyrdd o sicrhau bod y trydydd sector yn cael mynediad teg at y Gronfa Gofal Integredig

Arddangosyn 5: yr heriau a bennwyd o ran prif-ffrydio prosiectau drwy ein harolwg ymhlith arweinwyr prosiectau ar draws Cwm Taf




Ffynhonnell yr arddangosyn: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith arweinwyr prosiectau

33 Mae Bwrdd Cwm Taf wedi datblygu ffyrdd o ddysgu ar y cyd o fewn y rhanbarth. Mae hyn yn creu cyfleoedd i wella prosiectau a'u rhoi ar waith yn fwy effeithlon. Mae hefyd wedi pennu modelau o arfer da mewn mannau eraill yn y DU i osod sail ar gyfer y gwaith o lunio prosiectau. Tan yn ddiweddar, nid oedd wedi mynd ati i ddysgu ar y cyd â rhanbarthau eraill, ond mae'r tîm Cadw'n Iach Gartref wedi rhoi nifer o gyflwyniadau ers hynny i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect ledled Cymru. Serch hynny, cydnabu'r Bwrdd y gallai wneud mwy i ddysgu gan eraill.

**Meysydd i'w gwella**

- Paratoi strategaethau ymadael ar gyfer pob un o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig
- Dysgu o arferion da mewn rhanbarthau eraill

